

PERTHYN

Tachwedd 2026

Rhifyn 352



Am gael cynhaeaf yn ei bryd
dyrchafwn foliant byw;
fe gyfoethogwyd meysydd byd
gan fendith afon Duw.

Cernyw (rhif 65 Caneuon Ffydd)

Gair gan y Gweinidog

'Roedd hi'n oedfa Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf, a diolch i'r Clwb Sul am arwain yr Oedfa. Cyfle i fyfyrion ar destunau amrywiol ein diolchgarwch, i feddwl am y rhai sy'n cael bywyd yn anodd ac i gael ein hatgoffa o'n cyfrifoldebau o'r newydd. 'Roedd Oedfa Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn beth mawr yn Sir Drefaldwyn a Sir Amwythig ac yn ystod fy arhosiad yn nhref Croesoswallt fe fyddai'r cyfnod yma o'r flwyddyn yn un prysur. Diolch bod yr arfer yn parhau ac yn dweud llawer wrthym am y gymuned amaethyddol yr ydym mor ddyledus iddi. Ond mae pethau'n newid! Oedfa noson waith fyddai'r oedfa yn Llŷn, ac ambell i gymeriad annisgwyl yn bresennol. Bellach, mewn nifer o ardaloedd gwelwyd yr oedfa yn symud i'r Sul a'r gynulleidfa yn mynd yn llai ac yn llai. Yn ychwanegol, mewn nifer o addoldai ein gwlad mae'r arfer o addurno wedi peidio â bod a dim byd mwy nag ychydig flodau o'r ardd yn ffocws i'r weithred. Realiti all ein harwain ar un llaw i grafangau beirniadaeth, yr alwad i gyfrif ein bendithion, yn syml, i ddweud diolch am yr hyn sy'n cyfoethogi ein bywydau. Ar y llaw arall i grafangau ein dealltwriaeth o Dduw heddiw a'n diffiniad ohono mewn byd sy'n mynd â ni tu hwnt i'r cyfarwydd! Meddyliais lawer am hynny ers ein hoedfa o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf.

Mae'r wythnos hon wedi bod yn llawn cyfeiriadau am Aberfan ac ymhlith y cyfeiriadau hynny, y cwestiwn ystrydebol hwnnw am bresenoldeb Duw. Mewn erthygl gyfredol fe ofynnwyd yr un cwestiwn, ond ei ateb mewn termau dynol. Nid 'ble'r oedd Duw' ond yn hytrach 'ble'r oedd dyn', dyn oedd yn gwybod am y peryglon ond rhoddodd fateroliaeth o flaen diogelwch! Fe fyddai'n hawdd aros gyda'r mater yna, y ddealltwriaeth o ddioddefaint mewn amrywiol ffyrdd. Darllenwch Lyfr Job yn yr Hen Destament, llyfr yn y cyd-destun Iddewig sy'n ceisio ateb yr union ddealltwriaeth yna, yna darllenwch y llyfr 'Chasing Shadows' gan Naomi Gryn, casgliad o ysgrifau gan ei thad Hugo Gryn, yr Iddew

fu yn Auschwitz, a'r cwestiwn Iddewig hwnnw, 'ble'r oedd Duw'r Genedl yn hyn i gyd?'

I mi, mae'r cyfan yn tanlinellu fod pethau'n newid, a'n bod ni'n byw bellach mewn oes sy'n galw am fynd tu hwnt i'r ystrydebol. Hefyd tu hwnt i grefydd gyfundrefnol, tu hwnt i ffordd arbennig o feddwl, tu hwnt i ffordd o fyw sy'n perthyn bellach i'n gorffennol yn fwy na heddiw, ac i weld Duw o'r newydd mewn bywyd.

Sefyllfa sy'n ein gadael gyda nifer o ystyriaethau ac yn eu plith, y cwestiwn 'ydw i, ydan ni am fod yn rhan o hyn i gyd?' Am fod yn bobl, am fod yn eglwys sy'n galluogi'r math yma o bererindod ac ymdrech i adnabod Duw o'r newydd yng nghanol realiti ein heddiw.

Mae yna ddyddiau personol pryd mae'r ateb yn syml, NAG YDW. I gam ddefnyddio geiriau Dafydd Iwan, 'Gad fi'n llonydd'.

Ond nid peth fel yna yw'r Ffydd Gristnogol, ond yn hytrach galwad i adnabod Duw, i ddilyn yr Iesu ac i brofi bywyd yn nhermau'r newydd. Ac i hyn rhaid dal mewn dychymyg, mae'n rhaid wrth y ddealltwriaeth o aberth a dyfalbarhad ac ymdrech.

Yn ddyddiol mae'r dewis gennym, gen i, er mor anodd yw. Beth wnawn ni? Beth wna i? Oherwydd fe all olygu goresgyn neu dawelu. Ni neu fi sydd i benderfynu.

Fe gaiff yr Iesu'r geiriau olaf -
'Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.'

Mae hi wedi oeri!

Eifion.

Newyddion

Cofion

Anfonwn ein cofion at Mair Hughes, Cilgant Padarn, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at ein haelodau sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi preswyl neu yn eu cartrefi eu hunain.

Cydymdeimlad

- Trist yw cofnodi marwolaeth Phyllis Parry, Llwyn Afallon. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, Elfed Parry, a'r merched, Gaenor a Nerys a'u teuluoedd.
- Cydymdeimlwn â Gwen Aeron Down ar farwolaeth ei modryb, sef Mrs Dorothy Morgan, Tregaron. Hefyd â Sarah Down-Roberts, ei chwaer-yng-nghyfraith.
- Cydymdeimlwn â Hawys ac Owain Roberts, Erin a Beca ar farwolaeth modryb i Hawys yn Aberteifi.
- Cydymdeimlwn hefyd â David Hughes ar farwolaeth ei fam, sef Mrs. Verona Hughes, Rhodfa'r Gogledd.

Dymuniadau gorau...

i Nia Royles ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau a chofion cynnes atoch.

Rhestr Blodau 2027

Os ydych yn dymuno rhoi blodau neu gyfraniad at elusen y flwyddyn nesaf a wnewch chi lenwi'r rhestr newydd a osodir yn y cyntedd ym mis Tachwedd os gwelwch yn dda?

Cristion a Gair y Dydd

Os ydych yn dymuno ychwanegu eich enwau at y rhestr sydd yn derbyn Gair y Dydd a Cristion, os gwelwch yn dda a wnewch chi roi eich enwau i Alun neu Mary Morris. £12 yr un yw'r pris am y flwyddyn(Ceir y ddau am bris gostyngol!).

Ebeneser



Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser.

Anfonwn ein cofion at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac sydd yn methu ag ymuno yn y gwasanaethau. Rydym yn cofio'n gynnes iawn atoch.

Cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch ar brynhawn dydd Sul, Hydref 21ain. Roedd y capel wedi ei addurno'n hardd iawn gyda chynnyrch y cynhaeaf a gyfrannwyd gan yr aelodau.

Gwasanaethau mis Tachwedd

1af o Dachwedd: Gwasanaeth o dan arweiniad Mr Raymond Davies.

15fed o Dachwedd: Gwasanaeth Cymun o dan arweiniad ein Gweinidog Y Parchg Eifion Roberts.

Clwb Sul Capel y Morfa

Dwedodd Iesu, *Fi yw'r Ffordd, y Gwirionedd a'r Bywyd*



Dwedodd Iesu, *Rydw i'n rhoi Dŵr Bywiol i chi.*



Dwedodd Iesu, *Fi yw'r Wir Winwydden a chi yw'r canghennau.*





Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar fore Sul, Hydref 18fed. Thema'r Gwasanaeth oedd *'Diolch am roddion Duw'*. Roedd yn seiliedig ar eiriau'r Arglwydd Iesu y buom yn myfyrto drostynt yn ystod yr hanner tymor. Roedd y gweithgareddau oedd yn deillio ohonynt: *'Myfi yw'r bugail da'*, *'Myfi yw Bara'r Bywyd'*, *'Myfi yw'r Ffordd, y Gwirionedd a'r Bywyd'*, *'Myfi yw'r Wir Winwydden'* a *'Rydw i'n rhoi dŵr bywiol i ti'*.



Ar ôl diolch am y rhoddion dyddiol, sef ffrwythau, llysiau, teulu a ffrindiau a'u cyflwyno ar y bwrdd diolchgarwch, yr ateb i'r cwestiwn: Pwy yw'r rhodd orau i ni? yw IESU.

Ymunodd y gynulleidfa i gyd-weddïo'r weddi hon:

Gweddïwn

Diolch, Dduw, am dy fab Iesu Grist sy'n rhoi Bara'r Bywyd i ni.

Diolch ein bod ni'n gallu tyfu gyda Iesu, Y Wir Winwydden.

Diolch bod Iesu'n rhoi Dŵr Bywiol i ni trwy ei Ysbryd Glân.

Diolch bod Iesu'n dangos y Ffordd i ni.

Diolch bod Iesu'n gofalu amdanom fel y Bugail Da. AMEN

Wrth i ni ddilyn Iesu a dilyn yr arwyddion cywir fel yr arwyddion ffordd, priodol oedd i'r plant ganu 'Fy Fflam fach i'.



Cyflwynwyd y casgliad at waith Cymorth Cristnogol yn Sudan.

Ar ddechrau'r gwasanaeth holwyd i'r gynulleidfa ysgrifennu gweddi o ddiolch ar ddeilen. Wedi eu casglu, gosodwyd y dail ar gangen hir o'r WINWYDDEN a roddwyd i hongian yn y pulpud - y winwydden oedd yn ein clymu ni'n un ac yn ein dal yn agos at yr Iesu.



Diolch i bawb am eu rhoddion diolchgarwch hael dros ben sydd wedi eu dosbarthu ymhlith yr aelodau yn eu cartrefi a chartrefi gofal a Pantri Aber.

Eleri

Er cof



Glenys James

Un o Gymry Llundain oedd Glenys. Fe'i ganwyd yn East Ham, yn un o ddwy o ferched i Tom a Blodwen Lewis. Roedd y teulu, fel llawer i deulu arall o Geredigion, wedi troi eu golygon tuag at y ddinas fawr honno oherwydd y diwydiant llaeth. Cymharol fyr fu arhosiad Glenys yn Llundain oherwydd dychwelodd y teulu i Gymru gan ymsefydlu ar fferm Rhosfawr ym Mlaenplwyf. Mynychodd Ysgol Gynradd Rhydgaled gan symud ymhén amser i Ysgol Ramadeg Ardwyn. Bu'n llwyddiannus yn y byd academiaidd ac wedi gadael yr ysgol, dechreuodd weithio yn Adran Gyllid y Brifysgol yn Aberystwyth ac yno y bu am weddill ei gyrfa. Un arall oedd yn gweithio yn yr Adran oedd gwr ifanc o Rydfelin sef Ieuan James a dyfodd cyfeillgarwch rhwng y ddau, cyfeillgarwch arweiniodd at garwriaeth a drodd yn briodas yn 1971. All rhywun ddim meddwl am Glenys heb feddwl am Ieuan, y ddau yn deall ei gilydd i'r dim, a theulu a ffrindiau yn golygu gymaint iddynt. Ond mi roedd yna bethau eraill hefyd ac yn eu plith, teithio, Cymdeithas cyn fyfyrwyr Aberystwyth, Cymdeithas Hanes Teulu Ceredigion, Cyfeillion y Llyfrgell Genedlaethol, a lluo o elusennau. Roedd y cyfan yn dangos gofal a chonsyrn y ddau dros eraill. Ergyd fawr i Glenys fu colli Ieuan ond trwy garedigrwydd teulu a ffrindiau, parhaodd i fyw yn Erw Goch. Ymhén amser symudodd i Gartref y

Cwm yng Nghlarach a mawr fu'r gofal yno hefyd a hynny gan staff ymroddedig y cartref arbennig yna. Pobl ffydd oedd Glenys a leuan a bu eu ffyddlondeb i Eglwys yr Arglwydd Iesu yn esiamp ac yn ysbrydoliaeth. Buont yn gweithio'n dawel a hynny heb unrhyw rodres. Gwraig urddasol, alluog, tawel, oedd Glenys ond ar yr un pryd yn bendant ac yn sicr o'i phethau, a braint oedd cael ei hadnabod.

Bu farw'n dawel yng Nghartref y Cwm, Clarach.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel y Morfa ar 21 o Fedi ac yn dilyn ym mynwent Capel Y Garn, Bow Street gyda'r Parchg Eifion Roberts yn gwasanaethu.



**Cofiwch am Pantri Aber yn y Morlan
bob prynhawn Gwener 2-4 o'r gloch**



Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol



Cynhelir y cinio nesaf ar ddydd Llun, **2 Tachwedd rhwng 12:00 a 1:30p.m.** gan **Seion** ond wedi'i leoli ym **Methel**, Stryd y Popty.

Croeso cynnes i bawb

Diolch am eich haelioni

Diolch i bawb a gyfrannodd at y casgliadau arbennig hyn yn ddiweddar at Cymorth Cristnogol:

Apêl Nepal	£527
Cinio Cymorth Cristnogol Hydref	£268
Gwasanaeth Diolchgarwch y Clwb Sul	£450



Bydd **Astudiaeth Ffydd a Phaned** yn digwydd bob yn ail wythnos ar brynhawn Mawrth ar Zoom yn unig gan ddechrau ar y 3ydd o Dachwedd.

Bydd **Cymdeithas Gweddi a Choffi** yn digwydd bob yn ail fore Mawrth am 10:30 yn y festri ac ar Zoom o 11 o'r gloch.

Caiff y **Man Cynnes** ei gynnal ar ddyddiau Mercher rhwng 10:30-1:30p.m. yn y Festri.

Llwybr Cadfan

Roedd gan Sara bythefnos o wyliau, a ninnau heb feddwl beth i'w wneud, a dyna pryd y daeth Llwybr Cadfan i'r meddwl. Roeddwn i wedi bod yn trafod ar Bwrw Golwg sut yr oedd Yr Eglwys yng Nghymru wedi creu'r bererindod o Dywyn i Ynys Enlli, gan alw mewn eglwysi hynafol ar y ffordd, felly dyma benderfynu ei cherdded. Roedd yn golygu cerdded ryw gant a deg o filltiroedd, a rhaid cyfaddef yr her gorfforol honno oedd y cymhelliad cyntaf, nid ryw syched ysbrydol am brofiadau dirfodol mewn hen eglwysi.



A bod yn onest roedden ni wedi cychwyn y daith ryw flwyddyn yn ôl, ond dim ond o Dywyn i Lanegryn wnaethpwyd bryd hynny, ryw bedair milltir go dda. Felly dyma gychwyn ar y daith o Lanegryn i'r Bermo, un car yn Lanegryn a'r llall yn Fairborne (roedd hynny yn sbario gyrru rownd y

Fawddach). Roedd hi'n ddiwrnod braf a'r daith yn hyfryd nes i ni gyrraedd y Friog, a dyna pryd y sylweddolwyd fod gorriad y car oedd yn Fairborne yn y car yn Lanegryn! Roedd y bws olaf wedi gadael, a dydi'r trê'n ddim yn mynd i Lanegryn, ond diolch byth am ŵr tacsï o Ddolgellau. Ni wnaethpwyd y camgymeriad hwnnw eto.

Mae Llwybr Cadfan yn dilyn llwybr yr arfordir, beth o'r ffordd, ond dro arall yn mynd â chi ymhell o'r llwybr hwnnw. Gwneir hynny i'ch tywys at ambell eglwys neu ffynnon ond ni allwn ddeall pam fod y llwybr o'r Bermo i Dalybont yn mynnu ein bod yn dringo at



fynydd Egryn. Ond wedi cyrraedd tawelwch y mynydd ar ôl bywiogrwydd traeth a ffair roeddwn i'n hanner deall.



Nid yw gorllewin Meirionnydd yn gyfarwydd i mi o gwbl, felly roedd cerdded Morfa Dyffryn, cyrraedd eglwys Llandanwg (sydd bron wedi ei llyncu gan dwyni tywod) ac yna eglwys Llanfihangel y Traethau yn hyfryd. Yna roedd eglwys unig Landecwyn ar ben bryn uchel yn gyrchfannau godidog i gerdded atynt. Doedd fawr o wahaniaeth ein bod yn wlyb socian yn cerdded o Harlech i Landecwyn, gan fod y lle mor brydferth ac unig.

Yn ôl y sôn mae cwmnïaeth yn bwysig i bererindod. Dim ond ni ein dau oedd ar y daith, a doedden ni ddim yn eistedd fin nos yn adrodd chwedlau i'n gilydd fel ryw gymeriadau yn stori Bunyan. Ond fe gafwyd cwmni i swper yn Harlech, yng Nghricieth ac ym Mhwlheli. Galw am baned ar ddechrau'r dydd gyda Pryderi ac Eirwen yng Nghricieth oedd y bwriad, yna cerdded o Gricieth i Llangybi ac yna i Chwilog gan adael car bob pen fel arfer. Ond dyma Pryderi yn troi yn ŵr tacsî, y ceir yng Nghricieth a Pryderi yn ein cyfarfod yn Chwilog a'n cludo nôl i swper godidog. Trannoeth swper ym Mhwlheli a rhoi'r byd yn ei le efo mrawd a Helen.



Erbyn cerdded o Bwllheli i Lanengan ac yna o Lanengan i Aberdaron roeddwn i ar dir cyfarwydd, yn enwedig wrth gerdded drwy Langian a heibio capel Smyrna. Roedd yr atgofion yn llifo am ddigwyddiadau yn yr Ysgol Sul, neu ambell bregeth gan Gareth Maelor neu y set o oleuadau bach coch wedi casglu'n gylch ar nos Sul, a ffermwyr yr ardal yn trafod y bregeth tu ôl i'w sigarêts. Yn araf bach roedd yr her gorfforol yn troi'n atgof melys a phrofiad adnewyddol.



Ar y diwrnod olaf, ryw ddwy neu dair milltir o Aberdaron troi i mewn eglwys fechan syml Llanfaelrhys. Does yna ddim ffenestr liw uwchben yr allor, dim ond gwydr clir a mynydd y Rhiw yn llenwi'r gorwel. Yn eistedd yn fan honno yn syllu drwy'r ffenestr a

golygfeydd gwych llwybr yr arfordir yn dal yn fyw yn y meddwl sylweddoli fod mwy i'r daith na'r ymdrech, wedi'r cyfan.

Mae Duw yn llond bob lle,
presennol ymhob man,
y nesaf yw Efe
o bawb at enaid gwan.

Diolch i'r Eglwys yng Nghymru am drefnu'r llwybr. Beth am fentro arno, neu ran ohono?

John Roberts

Cymdeithas Capel y Morfa

Hywel Griffiths



I rai mae diwedd haf yn brofiad annymunol, y dydd yn byrhau a'r tywydd yn oeri, ond mae i ddiwedd haf ei fanteision hefyd. Yn gymysg gyda dail lliwgar yr hydref mae hi'n ddechrau tymor newydd mewn ysgol, coleg ac eglwys. Felly fe ddaeth yn ddechrau tymor yng Nghymdeithas Capel y Morfa, a thrwyddo gyfle i

gymdeithasu a mwynhau sgysiau difyr a buddiol. Y bwriad oedd bod y tymor i ddechrau gyda deuawd, nid i ganu cân ond i ganu cerddi. Roedd Eurig Salisbury a Hywel Griffiths wedi cytuno i gynnal noson i ni. Ond yn anffodus roedd myfyrwyr yr adran Gymraeg wedi rhannu annwyd efo Eurig, oedd yn ei adael heb lais. Fel y dywedodd Sara wrth gyflwyno Hywel, roedd myfyrwyr yr adran ddaearyddiaeth yn fwy hael efo ni, a chytunodd Hywel i gyflwyno'r noson ei hunan.

Fel y dywedodd Hywel yn ystod y noson, mae gwyddoniaeth a barddoniaeth yn cyd-dynnu'n ddigon hwylus yn ei fywyd, a'i gerddi yn aml iawn yn dangos ei ddiddordeb yn y byd o'i gwmpas. Cawsom amryw o gerddi gafaelgar am y fro a nodweddion yn naearyddiaeth y fro. Er mai "dyn dŵad" yw Hywel fel petai, mae ei chwilfrydedd am ddaearyddiaeth, hanes a chymuned y dref yn amlwg iawn. Roedd hefyd yn sôn am ei waith fel bardd y dref, ac y mae Aberystwyth ymhlith yr ychydig drefi sydd â bardd y dref. Mae'n canu wedyn i ddigwyddiadau cyson megis Parêd Dwynwen a Pharêd Gŵyl Dewi. Mae gofyn iddo hefyd ganu i ddigwyddiadau

arbennig. Darllenodd ei gerdd i groesawu rhwyfwyr o lwerddon oedd wedi cyrraedd yr harbwr. Cyfeiriodd hefyd at y ffordd y mae am i gerddi bardd y dref fynd ar led i wledydd eraill, er mwyn rhoi argraff i bobl o ddyfnder diwylliant y dref a'r fro.

Cafwyd noson ddifyr iawn, ac wrth gael ei holi ar y diwedd holwyd ef am gwpledi sydd mewn llechen ar y prom, ei waith ef ac Eurig ar y cyd. Rhoddodd gipolwg i ni ar sut y lluniwyd hwy, weithiau ar y cyd - dro arall gan un ohonynt, ond yr hyn oedd yn sefyll allan oedd y teimlad o fraint o gael ei waith mewn llechen ar hyd y prom. Mae Aberystwyth wedi mynnu lle ym mhlethdod ei gymeriad ac roedd hi'n hynod braf gweld hynny drwy gydol ei sgwrs.

John Roberts

Eirian Gravell

Eirian Gravell fu'n sgwrsio gyda John Roberts yng nghyfarfod y Gymdeithas a gynhaliwyd ar nos Lun 12 Hydref.

Cafwyd taith drwy'i bywyd a'i gwaith fel nyrs – a'r ffaith ei bod yn gwybod er mai dyna'r llwybr fyddai'n ei dilyn o oedran cynnar iawn. Bu'n nyrs arbenigol mewn haematoleg ar ward cancer Ysbyty Bronglais. Roedd ei hymroddiad i'w gwaith a'i chleifion yn amlwg a'r pwyslais ar ofalu amdanynt, gan fynd yr ail filltir yn rhywbeth arbennig iawn.



Yn dilyn ei hymddeoliad, bydd yn parhau gyda'r nyrsio wrth ddechrau prosiect arbennig gydag elusen HAAV a dymunwn yn dda iddi gyda'r gwaith hwnnw. Cafwyd noson arbennig yn ei chwmni a phawb oedd yn bresennol yn gallu tystio i hynny.

Menai

Cyfarfod Diolchgarwch yng nghwmni Enid Morgan



Nos Lun, 26 Hydref roedd hi'n noson Diolchgarwch y Gymdeithas a chafwyd cyfle o dan arweiniad John, ein Cadeirydd, i gofio, diolch a dathlu'r ffaith fod Duw o'n plaid heddiw ac i'n yfory yn ein diolchiadau. Daeth nifer teilwng ynghyd i'r Festri i ddiolch ac i fwynhau'r gwmnïaeth a'r lluniaeth a baratowyd.

Y wraig wadd oedd y Parchedig Ganon Enid Morgan a fu'n sgwrsio gyda John am ei bywyd a'i gyrf. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Enid. Yn ei geiriau hi, poblogeiddiwr oedd hi yn hytrach nag ysgolhaig. Gwelwyd mai Litwrgi sy'n bwysig i Enid - a hynny oherwydd cynildeb eu gweddïau. Cyfeiriodd at ddylanwad Saunders Lewis arni a'r copi o Gofiant Emrys ap Iwan gan T. Gwynn Jones a dderbyniodd ganddo. Mynegodd ei balchder o'r bleidlais a ganiatawyd i dderbyn merched fel offeiriadon, y chwerthin ymhlith y merched a'r ffaith eu bod yn batrwm o'r hyn sy'n bosibl. Roedd bywyd yr eglwys leol yn dangos y Beibl ar waith.

Cyfeiriodd wrth gloi at bwysigrwydd yr amgylchedd a'r angen i ni fel Cristnogion edrych ar ôl y byd a roddwyd i ni gan Dduw yn hytrach na'i ddifetha fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'r rhai sy'n llygru'r byd lleiaf yn dioddef fwyaf. Ei gobaith i'r dyfodol? Bod yn gneuen yn llaw Duw a byddai popeth yn dda.

Roedd yn braf hefyd croesawu Gerald Morgan, ei phriod i'r noson. Diolchwyd i Enid am gamu i'r adwy oherwydd absenoldeb munud olaf Delyth Morgans Phillips yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei mam yn y dyddiau diwethaf. Anfonwyd cofion a chydymdeimlad at Delyth a'r aelodau ffyddlon oedd wedi methu bod yn bresennol.

Menai



**Cyfarfodydd mis
Tachwedd a Rhagfyr
(7 y.h. yn Festri Capel y
Morfa)**

9 Tachwedd: *Dod i nabod dwy
chwaer.* **Gwen a Jane Aaron**

23 Tachwedd: *Ein cartref yn y
gofod.* **Eleri Pryse**

7 Rhagfyr: *Un Seren.* **Delwyn
Sion** (gweler y poster)

Gweddïwn

Ein Tad, awdur bywyd, cynhaliwr pob dim byw,
a'n harweinydd trwy Iesu i fywyd llawn;
diolchwn i ti am gynnyrch y ddaear a'r môr,
llysiau'r caeau a'r gerddi,
a ffrwythau'r coed a'r llwyni;
am yr haul a'r gwynt a'r glaw
a roes gynydd ac aeddfedrwydd i'r had;
am yr amaethwr a'r garddwr
fu'n bartneriaid ffyddlon a diwyd i ti,
yn trin y tir ac yn hau,
yn cywain ac yn casglu i ysguboriau;
am y crefftwyr a'r gweithwyr fu'n gyfrifol
fod cynhaeaf yn gynhaliaeth wrth law ar ein cyfer,
i'n cadw ni a'n teuluoedd yn fyw ac yn iach.



Ond, O Dad, rho i ni raslonrwydd Iesu Grist
I gofio am y rhai sydd mewn angen,
trwy weddio, trwy rannu
a thrwy geisio trefn decach
i'r gwan a'r tlawd.
“Rho i ni nerth i wneud ein rhan”,
Yn enw Iesu Grist. Amen.

John Owen

(Allan o Amser i Dduw, Gol. E. Ap Nefydd Roberts)

Dyddiadur Tachwedd 2026

Blaenor y mis: Rhidian Griffiths

Gwasanaethau'r Sul: 10 y bore yng Nghapel y Morfa ac ar Zoom. 2:15 y prynhawn yn Ebeneser ar y 15fed a'r 29ain.

- 1 - Yr Athro Jamie Medhurst (Mr Raymond Davies yn Ebeneser)
- 8 - Mr Tudur Dylan Jones
- 15 - Y Parchg Eifion Roberts (oedfa Gymun)
- 22 - Y Parchg Peter Thomas
- 29 - Y Parchg Eifion Roberts

Rhestr flodau Capel y Morfa

- 1 – Margaret Stephens a Dolig Farrell
- 8 – Gwyneth Clwyd a Carys Davies (Cyfraniad at elusen)
- 15 – Huw a Mary Owen
- 22 – Teulu'r Richmond
- 29 – Mary Jones Morris

Golygydd y rhifyn hwn yw Hywel Lloyd.

Diolch i Catherine, Non a John am y lluniau.

Cyfraniadau ar gyfer rhifyn mis Rhagfyr / Ionawr o Perthyn i Sarah neu John (sarahminyfron@hotmail.com) erbyn dydd Gwener 27 Tachwedd, os gwelwch yn dda.